

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, RHAGFYR
2ail, 2019, YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS .

1. **CROESO** - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a dymunodd gyfleu cydymdeimlad y Cyngor i'r Cynghorydd Goronwy R. Williams yn ei golled o'i wraig, Einir.
2. **YN BRESENNOL** - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
3. **YMDDIHEURIADAU** - Yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans a'r Cynghorwyr Hefin Williams; Bryn Jones; D.Gwyn Jones; Fiona Haf Jones; John D.Roberts a Goronwy R.Williams.
4. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** - Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. **NI DDATGELWYD YR UN.**
5. **MUNUDAU - PENDERFYNWYD CADARNHAU, CYMERADWYO AC ARWYDDO** munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Dachwedd 4ydd, 2019, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.
6. **MATERION YN CODI**
 - 3.19/18(i) Tyllau ffordd rhwng Betws a Nant yr Efail. Mae rhif gwaith 00046881 yn cyfeirio. Dywedodd y Cynghorydd Ifor Lloyd ei fod wedi cael sicrwydd y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud y flwyddyn nesaf.
 - 3.19/18(ii) Cwyn ynghylch damweiniau niferus ar y troadau ger Bryn Person. Mae rhif gwaith 46292 yn cyfeirio. Mae Mr Griffiths o'r Cyngor Sir yn mynd i wneud asesiad o'r ffordd.
 - 7.19/18(v) Llythyr gan Mr Goronwy Davies yn glŷn â charreg fedd ym mywent yr eglwys. Roedd yn dal i aros am ateb gan Mr Huw Davies o'r Cyngor Sir.
 - 11.19/18(i) Cyflwr wyneb y ffordd rhwng Nant yr Efail a PheniARTH Bach. Roedd cyflwr y ffordd hon yn gwaethygu.
 - 11.19/18(ii) Tyllau ffordd rhwng Cefn Isa a Phen y Cefn. Rhif gwaith 00054447. Roedd y gwaith hwn wedi ei wneud.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

12.19/7(i) E-bost arall gan HSBC yn nodi ein bod wedi cwblhau'r Ffurflen Diogelwch Cwsmer. NODWYD hyn.

12.19/7(ii) Ateb gan Darren Millar AC ynglŷn â diogelwch preswylwyr ym Metws yn Rhos pan fo tagfa ar yr A55. NODWYD hyn.

8. CYLLID -- PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Dachwedd 20fed, 2019.

Cyfrif cymunedol£5782.80

Cyfrif busnes£5542.50

I gytuno, ac arwyddo'r fantolen fisol ar gyfer Tachwedd 2019. CYTUNWYD ARNI GAN BAWB.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU'r holl eitemau a restrir isod:-

- i. 12.19/10(i) Cyflog y Clerc(DU)£ 287.23
- ii. 12.19/10(ii) HMRC...(DU)....£ 71.81
- iii. 12.19/10(iii) Cyfieithu (Hanner y gost).... £ 15.00 - Siec 200062
- iv. 12.19/10(iv) Swyddfa Archwilio Cymru£ 248.50 - Siec 200063
- v. 12.19/10(v) Stampiau£ 25.20 - Siec 200064

11. CEISIADAU AM GRANT - Dim.

12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

4.16/12(i) Adroddiadau ynghylch materion Archwiliad Ward. Dywedodd y Cyngorydd Lloyd fod y Cyngor Sir yn wynebu toriad o 8% yn ei gyllid y flwyddyn nesaf. Gan fod rhai gwasanaethau megis Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg i gael eu gwarchod, fe fyddai'n rhaid i'r mwyafrif o'r arbedion ddod o wasanaethau eraill fel ffyrdd. Roedd y coed ar Ffordd Galch i gael eu torri.

12.19/12(i) Llythyr ynglŷn â Chynlluniau Lleoliad. NODWYD hyn.

12.19/12(ii) E-bost ynghylch trosglwyddo asedau o Gyngor Sir Conwy. NODWYD hyn am y tro, hyd nes y byddai mwy o wybodaeth a chostau ar gael.

12.19/12(iii) Cyfarwyddyd ynglŷn â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 6. NODWYD hyn hyd nes y byddai mwy o wybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â'r goblygiadau i Gyngorau Cymunedol bychain.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED. - DIM.

15. UNRHYW FATER ARALL

9.19/15(i) Cyflwr hysbysfyrddau yn yr ardal. PENDERFYNWYD GOHIRIO hyd nes y byddai ateb wedi ei dderbyn o Gronfa'r Parc Heulol.

11.19/15(i) PENDERFYNWYD bod y Clerc i brynu gliniadaur a rhaglenni atodol ar gyfer y Cyngor.

11.19/15(ii) CYTUNWYD y byddai'r Cyngor yn penderfynu yn ei gyfarfod nesaf a fyddai'n parhau i gyfarfod ym mis Rhagfyr.

16. CYNLLUNIO. -

12.19/16(i) 0/46852 Newid adolygol o ddefnydd adeiladau a thir a ddefnyddir fel dosbarthiadau B1, B2 a B3 ym Mryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn. Mr Max Jones. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

17. MATERION ARCHWILIAD - Dim..

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 8.40y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....